HYFFORDDIANT ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG YR AWDURDODAU ADDYSG LLEOL I LYWODRAETHWYR YSGOLION

Canolfan Rhagoriaeth Cymru ar gyfer
Hyfforddi Llywodraethwyr ac Ymchwil
Adran Addysg, Prifysgol Cymru Abertawe
Hendrefoelan, ABERTAWE SA2 7NB
Ffôn: 01792 518609/518610 Ffacs: 01792 290219

Mai 2002

HYFFORDDIANT ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG YR AWDURDODAU ADDYSG LLEOL I LYWODRAETHWYR YSGOLION

Cyflwyniad

Mae canfyddiadau'r astudiaeth hon yn seiliedig ar wybodaeth a gafwyd o arolwg holiadur (Atodiad 1) a ddanfonwyd i bob un o'r 22 awdurdod unedol yng Nghymru ym mis Chwefror 2002, a rhaglenni hyfforddi llywodraethwyr pob un o'r AALl yng Nghymru ar gyfer y blynyddoedd academaidd 2000-2001 a 2001-2002.

Beth yw ystyr Hyfforddiant Anghenion Addysgol Arbennig?

Gellid dadlau bod pob hyfforddiant i lywodraethwyr ysgolion yn cynnwys agweddau ar Anghenion Addysgol Arbennig i ryw raddau neu'i gilydd, ac felly y gellid cynnwys pob hyfforddiant i lywodraethwyr o dan y pennawd Anghenion Addysgol Arbennig. Er enghraifft, bydd cyrsiau ar lythrennedd a rhifedd yn amlwg yn cynnwys elfen sylweddol ynghylch Anghenion Addysgol Arbennig: felly hefyd, er yn llai amlwg o bosibl, bydd rhannau o'r cyrsiau sefydlu, ac ynghylch rôl cyrff llywodraethol, er enghraifft, hefyd yn cyffwrdd â maes Anghenion Addysgol Arbennig.

Oni bai fod pob cwrs hyfforddi yn cael ei gynnwys o dan bennawd hyfforddiant Anghenion Addysgol Arbennig, mae angen diffinio'n fanylach. At ddibenion yr astudiaeth hon, dau fath o gwrs yn unig a gaiff eu hystyried:

- y cyrsiau hynny lle mae'r prif ffocws yn amlwg ar Anghenion Addysgol Arbennig yn gyffredinol neu ar Angen Addysgol Arbennig penodol;

- y cyrsiau hynny sy'n canolbwyntio'n bennaf ar broblem gymdeithasol/ymddygiad, ond y mae eu cynnwys yn cael effaith amlwg ar angen addysgol plentyn – yn benodol, *cynhwysiad, ymddygiad* ac *amddiffyn plant.*

ADRAN 1: MATHAU O HYFFORDDIANT

Mae AALlau yn cynnig amrywiaeth o gyrsiau hyfforddi Anghenion Addysgol Arbennig i lywodraethwyr (Tablau 1 a 2). Y rhai mwyaf poblogaidd yw'r cyrsiau sy'n ymwneud yn gyffredinol â "Materion AAA" sydd fel arfer yn codi ymwybyddiaeth ac yn trafod cyfrifoldebau statudol cyrff llywodraethol, er y gallant mewn nifer o achosion ystyried pynciau eraill hefyd fel y Cod Ymarfer. Mae'n werth nodi'r pwyslais a roddir ar gyrsiau sy'n canolbwyntio'n bennaf ar anghenion cymdeithasol, gydag awdurdodau'n cynnig nifer gymharol fawr o gyrsiau ar *gynhwysiad, ymddygiad* ac, yn arbennig, *amddiffyn plant.*

Rhaid cofio hefyd fod cyrsiau sefydlu i lywodraethwyr (nad ydynt wedi'u cynnwys yn yr ystadegau hyn) bron bob amser yn cynnwys adran wedi'i neilltuo i Anghenion Addysgol Arbennig.

At hynny, mae AALlau yn gynyddol yn cynnig hyfforddiant i gyrff llywodraethol unigol. Caiff pob corff llywodraethol ddewis pynciau fel arfer ac, yn hanesyddol, *paratoi ar gyfer arolygiad* fu'r pwnc mwyaf poblogaidd. Fodd bynnag, mae cyfle i hyfforddiant Anghenion Addysgol Arbennig pellach gael ei gynnig fel hyn. Mae o leiaf chwe AALl yng Nghymru'n cynnig gwasanaeth i hyfforddi cyrff llywodraethol unigol.

<u>Diffiniadau ar gyfer Tablau 1 a 2</u>

Mae *Materion yn ymwneud ag AAA* yn cynnwys:

- codi ymwybyddiaeth o faterion sylfaenol mewn perthynas ag AAA
- hyrwyddo dealltwriaeth o drefnau a phrosesau critigol
- cyfrifoldebau statudol llywodraethwyr a'u rôl wrth ymdrin â disgyblion AAA

Mae *Cyrsiau Arbenigol* yn cynnwys:

- awtistiaeth
- dysgu carlam
- dyspracsia
- dyslecsia
- Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd
- disgyblion eithriadol o alluog

Mae *cyrsiau eraill* yn cynnwys:

- hawliau dynol
- sgiliau sylfaenol

Tabl 1: Mathau o Hyfforddiant 2000 – 2001

Math o Hyfforddiant	Nifer yr AALlau yn cynnig o leiaf un cwrs
Materion yn ymwneud ag AAA	9 (i)
Cynhwysiad	5
Ymddygiad	5
Amddiffyn Plant	7
Cod Ymarfer	5
Cyrsiau Arbenigol	3 (ii)
Cyrsiau Eraill	4 (iii)

Nodiadau:

(i) Mae un AALl yn cynnig tri chwrs o'r math hwn

(ii) Mae un AALl yn cynnig pedwar cwrs o'r math hwn

(iii) Mae un AALl yn cynnig dau gwrs o'r math hwn ac mae un AALl yn cynnig tri chwrs o'r math hwn.

Tabl 2: Mathau o Hyfforddiant 2001 – 2002*

Math o Hyfforddiant	Nifer yr AALlau yn cynnig o leiaf un cwrs
Materion yn ymwneud ag AAA	6 (i)
Cynhwysiad	2
Ymddygiad	5
Amddiffyn Plant	7
Cod Ymarfer	5
Cyrsiau Arbenigol	2
Cyrsiau Eraill	8 (ii)

Nodiadau:

***** Nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys hyfforddiant ar gyfer tymor yr Haf 2002 yn achos 11 AALl.

(i) Mae un AALl yn cynnig dau gwrs o'r math hwn.

(ii) Mae un AALl yn cynnig dau gwrs o'r math hwn ac mae un AALl yn cynnig tri chwrs o'r math hwn.

Yn achos dau AALl, ni chynigiwyd cyrsiau neu bu'n rhaid eu canslo o achos Clwy Traed a'r Genau

ADRAN 2: FFURF YR HYFFORDDIANT

Mae AALlau'n cynnig hyfforddiant Anghenion Addysgol Arbennig naill ai fel cyrsiau ar wahân neu wedi'u cyfuno â phynciau eraill. Mae rhai'n cynnig y ddau fath o hyfforddiant. Mae'r pynciau sy'n cael eu cyfuno ag Anghenion Addysgol Arbennig yn amrywio, ond fel arfer maen nhw'n bynciau perthynol fel bwlian a hawliau cyfartal. Mae'r rhan fwyaf o AALlau'n neilltuo rhan o'u cyrsiau sefydlu llywodraethwyr newydd i Anghenion Addysgol Arbennig. Fodd bynnag, nid yw cyrsiau sefydlu wedi eu cynnwys yn yr ystadegau hyn (Tabl 3).

Tabl 3: Ffurf yr Hyfforddiant

Ffurf yr Hyfforddiant		Nifer yr AALlau sy'n cynnig
1999-2000	Cyrsiau ar wahân yn unig	16
	Cyrsiau wedi eu cyfuno'n unig	1
2000-2001	Cyrsiau ar wahân yn unig	16
	Cyrsiau wedi eu cyfuno'n unig	1
Tymor yr Hydref 2001	Cyrsiau ar wahân yn unig	6
	Cyrsiau wedi eu cyfuno'n unig	3

Nodiadau:
Cynigiodd dau AALl gyrsiau ar wahân ac wedi eu cyfuno yn ystod 1999-2000 a 2000- 2001.
Ni chynigiodd dau AALl gyrsiau neu bu'n rhaid eu canslo oherwydd clwy Traed a'r Genau

Y ffordd fwyaf poblogaidd o bell ffordd o drefnu hyfforddiant Anghenion Addysgol Arbennig i lywodraethwyr yw drwy gyrsiau ar wahân, gydag un AALl yn unig yn 1999-2000 a 2000-2001 yn cynnig cyrsiau wedi eu cyfuno'n unig. Mae nifer o AALlau (chwech) hefyd yn cynnig hyfforddiant i gyrff llywodraethol unigol fel y gall llywodraethwyr gael hyfforddiant AAA drwy'r dull hwn pe dymunent. Mae un AALl yn cynnig cwrs hyfforddi dwy awr o hyd wedi'i ariannu'n ganolog i gyrff llywodraethol unigol bob blwyddyn ariannol, ac mae Anghenion Addysgol Arbennig yn un o'r modiwlau sy'n cael eu cynnig.

ADRAN 3: DARPARWYR YR HYFFORDDIANT

Tabl 4

Darparwr yr Hyfforddiant	Nifer yr AALlau yn eu defnyddio
Swyddogion AALl gyda chyfrifoldeb dros AAA	13
Ymgynghorydd AAA yr AALl	17
Cydlynydd AAA yr Ysgol	3
Darparwr arall	2
Un math o ddarparwr yn unig	10
Dau fath o ddarparwr	10
Tri math o ddarparwr	2

Er y caiff amrywiaeth o ddarparwyr hyfforddiant eu defnyddio gan AALlau ar gyfer hyfforddiant Anghenion Addysgol Arbennig i lywodraethwyr, fel y gellid disgwyl, y darparwyr mwyaf poblogaidd yw'r ymgynghorwyr AAA arbenigol. Mae'n ddiddorol mai ychydig o ddefnydd a wneir o Gydlynwyr AAA yr ysgol, gyda thri AALL yn unig yn eu defnyddio mewn rhaglenni hyfforddi llywodraethwyr. Tri awdurdod yn unig sy'n defnyddio darparwyr hyfforddiant nad ydynt yn cael eu cyflogi yn eu gwasanaeth addysgol, un ohonynt yn cynnwys staff o'r Adrannau Gofal Cymdeithasol a Thai.

Mae'r AALlau sy'n defnyddio un math o ddarparwr hyfforddiant yn unig yn ymrannu'n ddau grŵp o'r un maint yn fras. Mae pedwar AALl yn defnyddio swyddogion AALl sy'n gyfrifol am AAA, tra bod chwe AALl yn cyflogi ymgynghorwyr AAA arbenigol. Gyda'r AALlau sy'n defnyddio dau fath o ddarparwr, y cyfuniad mwyaf poblogaidd yw swyddogion AALl sy'n gyfrifol am AAA ac ymgynghorydd Anghenion Addysgol Arbennig AALl, gydag wyth o'r deg AALl yn y grŵp hwn yn dewis y cyfuniad yma o arbenigedd. Ceir lefel uchel debyg o fewnbwn arbenigol yn yr AALlau hynny sy'n dewis cyfuniad o dri darparwr.

ADRAN 4: DIWRNODAU AC ADEGAU PRYD Y CYNHELIR YR HYFFORDDIANT

O gyfanswm o ugain awdurdod unedol (effeithiodd clwy Traed a'r Genau'n wael ar gyrsiau hyfforddi llywodraethwyr dau AALl yn ystod y blynyddoedd academaidd yr ymchwiliwyd iddynt), cynhaliodd pedwar awdurdod ar ddeg gwrs ar wahanol ddiwrnodau o'r wythnos, tra bod y chwech arall fel arfer yn cynnal cyrsiau ar yr un diwrnod. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw gydberthynas rhwng faint oedd yn mynychu sesiynau a'r ffaith eu bod yn cael eu cynnal ar ddiwrnodau gwahanol.

Roedd un ar bymtheg o'r ugain awdurdod unedol yn rhedeg eu cyrsiau ar yr un adeg (fel arfer gyda'r nos), tra bod pedwar yn amrywio'r adegau pan fyddent yn cael eu cynnal. Unwaith eto, nid oedd cydberthynas rhwng amseru'r sesiynau hyfforddi a'u poblogrwydd.

ADRAN 5: NIFER Y LLYWODRAETHWYR SY'N MYNYCHU CYRSIAU HYFFORDDI

Mae'r niferoedd sy'n mynychu cyrsiau hyfforddi Anghenion Arbennig yn isel ledled AALlau Cymru er gwaetha'r amrywiaeth o ffyrdd, lleoliadau ac adegau a ddefnyddir i fynd i'r afael â'r broblem hon.

Fodd bynnag, am y rhesymau canlynol, mae'n hynod anodd cael data cymharol ystyrlon ar gyfer pob AALl o'r wybodaeth sydd ar gael:

- mae rhai AALLau yn cynnig hyfforddiant i gyrff llywodraethol unigol, felly ni fydd cyfartaledd nifer y rhai sy'n mynychu'r sesiynau hyn fyth yn uwch nag ugain ar y mwyaf;

- mae nifer o awdurdodau'n cynnig yr un cwrs mewn gwahanol leoliadau, felly bydd mwy o lywodraethwyr yn cael hyfforddiant na phe bai'n cael ei gynnig mewn un lleoliad yn unig, ond golyga hyn fod cyfartaledd y nifer sy'n mynychu'n is;

- lle caiff hyfforddiant Anghenion Arbennig ei gynnig wedi'i gyfuno â phynciau eraill, yn enwedig os yw'n rhan o gwrs sefydlu, mae'n anodd iawn gwybod faint o'r cynnwys sy'n cael ei neilltuo i Anghenion Addysgol Arbennig ac, yn wir, a fynychodd llywodraethwyr y sesiwn ar gyfer yr elfen Anghenion Arbennig a'r nifer a wnaeth.

Mae'r sylwadau canlynol gan nifer o Swyddogion Cefnogi Llywodraethwyr yr AALl yn crynhoi eu barn am y niferoedd sy'n mynychu sesiynau hyfforddi Anghenion Arbennig:

> *"Roedd hi'n fwriad gennym i gynnal sesiynau (hyfforddi) arbennig mewn chwe lleoliad ond bu'n rhaid eu canslo gan fod cyn lleied eisiau eu mynychu."*
>
> *"Ers 1999/2000 mae 202 wedi mynychu (cyrsiau hyfforddi AAA) hyd yn hyn, ond mae'r nifer ar gyfartaledd yn isel, ar ba bynnag ddiwrnod neu amser maen nhw'n cael eu cynnig."*
>
> *"Mae ein sesiynau hyfforddi AAA yn cael derbyniad da fel arfer, ond fel sy'n wir am gyrsiau eraill, cymharol fach yw'r niferoedd sy'n eu mynychu."*

Mae'n werth nodi bod ymchwil a wnaed yn 2000 gan Ganolfan Rhagoriaeth Cymru ar gyfer Hyfforddi Llywodraethwyr ac Ymchwil wedi dangos bod y niferoedd sy'n mynychu digwyddiadau hyfforddi llywodraethwyr yn isel yn gyffredinol.[1]

Yn y flwyddyn academaidd 1999/2000, ac eithrio un AALl, adroddodd pob awdurdod nad oedd un cwrs a gafodd ei fynychu'n well na'r cyrsiau eraill a gynigiwyd. Yr eithriad oedd cwrs cyflwyniad i Anghenion Addysgol Arbennig a gynigiwyd gan un AALl arbennig.

[1] *Hyfforddi Llywodraethwyr Ysgolion yng Nghymru* (Abertawe: Canolfan Rhagoriaeth Cymru ar gyfer Hyfforddi Llywodraethwyr ac Ymchwil, 2000)

Adroddodd yr un AALl am y cyfnod 2000/20001, fod mwy wedi mynychu cwrs yn canolbwyntio ar Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd, dyspracsia a dyslecsia na chyrsiau eraill.

Cafodd ail AALl niferoedd uwch na'r cyfartaledd ar gyfer cwrs ar gynhwysiad. O ran yr awdurdodau eraill, roedd y niferoedd oedd yn mynychu tua'r un faint ar gyfer eu cyrsiau i gyd.

ADRAN 6: HYFFORDDI AR GYFER DEDDF ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG AC ANABLEDD 2001

Tabl 5: Darpariaeth Hyfforddi Llywodraethwyr AALl ar gyfer Deddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd (DAAAA)

	2001-2002	2002-2003
Hyfforddiant ar gyfer DAAAA fel cwrs ar wahân	6	10
Hyfforddiant ar gyfer DAAAA wedi'i gyfuno â phynciau AAA eraill	4	4
Hyfforddiant ar gyfer DAAAA ar wahân ac wedi'i gyfuno â phynciau eraill	0	2

Mae'n amlwg fod pob AALl naill ai'n hyfforddi neu'n paratoi i hyfforddi llywodraethwyr gogyfer â gofynion Deddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd 2001.

Yn ystod blwyddyn academaidd 2001-2002 (er y cynhelir y cyrsiau hyfforddi mewn gwirionedd yn ystod tymhorau'r gwanwyn a'r haf 2002), bydd pedwar awdurdod yn rhedeg cyrsiau wedi'u cyfuno â phynciau AAA eraill, tra bydd chwech yn rhedeg cyrsiau ar wahân ar y Ddeddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd.

Yn ystod 2002-2003, bydd pedwar awdurdod yn rhedeg cyrsiau wedi'u cyfuno â phynciau eraill, a deg fel cyrsiau ar wahân. Nid yw un AALl wedi penderfynu pa un o'r ddau ddull hyfforddi i'w fabwysiadu ac roedd y AALlau oedd yn weddill heb ddrafftio eu rhaglenni hyfforddi llywodraethwyr ar gyfer 2002-2003 pan ddanfonwyd yr holiadur atynt (mis Chwefror 2002).

ADRAN 7: SYLWADAU ERAILL

Yn yr arolwg holiadur, gofynnwyd i swyddogion cefnogi llywodraethwyr yr AALlau a oedd unrhyw agweddau ar hyfforddiant Anghenion Addysgol Arbennig y credent fod angen mwy o bwyslais arnynt, neu y byddent yn dymuno gwneud sylwadau yn eu cylch. Cafwyd pedwar ymateb.

Credai dau ymatebydd y dylid rhoi mwy o bwyslais ar hyfforddi llywodraethwyr yn y Cod Ymarfer newydd; roedd un ymatebydd o'r farn y dylai rhoi mwy o sylw i dderbyn ac eithrio disgyblion, a'r olaf eisiau gweld gwell canolbwynt ar rôl llywodraethwyr wrth fonitro darpariaeth AAA mewn ysgolion.

ADRAN 8: CASGLIADAU

- Mae'n amlwg fod AALlau ledled Cymru'n cynnig ystod eang o gyrsiau ar bynciau'n ymwneud ag Anghenion Addysgol Arbennig. Yn amlwg, o ystyried maint cymharol fach awdurdodau Cymru, nid yw un AALl yn gallu cynnig cyrsiau sy'n cwmpasu holl feysydd Anghenion Addysgol Arbennig ac mae hyn yn gallu bod yn broblem i lywodraethwr sy'n byw mewn AALl nad yw'n cynnig y math o gwrs sydd arno/arni ei angen. Mewn gwirionedd, mae'n hynod annhebygol y byddent hyd yn oed yn gwybod a yw unrhyw AALl arall yng Nghymru'n cynnig cwrs o'r fath, gan eu bod yn annhebygol o gael gwybodaeth am gyrsiau hyfforddi mewn unrhyw AALl heblaw am eu hawdurdod eu hunain.

- Mae mwyafrif bychan o AALlau (12) yn defnyddio mwy nag un math o ddarparwr hyfforddiant, er mai nifer fach iawn (3) sy'n defnyddio Cydlynwyr AAA yr ysgolion. Gan fod y rhain yn arbenigwyr sydd wrthi'n gweithio yn y maes, fel petai, ac y dylai fod ganddynt sgiliau cyfathrebu da oherwydd natur eu swydd, mae'n syndod na chânt eu cynnwys yn amlach mewn strategaethau i hyfforddi llywodraethwyr.

- Mae'r niferoedd sy'n mynychu cyrsiau hyfforddi llywodraethwyr yn siomedig er gwaethaf ymdrechion taer swyddogion cefnogi llywodraethwyr i amrywio lleoliadau, diwrnodau ac adegau cynnal y sesiynau. Fodd bynnag, nid yw'r broblem hon yn gyfyngedig i gyrsiau Anghenion Addysgol Arbennig, gan fod ymchwil a wnaed eisoes gan y Ganolfan hon wedi dangos fod hyn yn wir yn achos pob cwrs hyfforddi llywodraethwyr.[2] Mae'n debyg fod angen newid sylweddol o ran mynd i'r afael â hyfforddi llywodraethwyr er mwyn datrys y broblem hon.

[2] Ibid.

Ionawr 2002

CANOLFAN RHAGORIAETH CYMRU
AR GYFER HYFFORDDIANT LLYWODRAETHWYR AC YMCHWIL

HYFFORDDIANT ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG
I LYWODRAETHWYR YSGOL

Enw'r Awdurdod Addysg Lleol: ……

1 Faint o ysgolion cynradd ac uwchradd sydd yn eich Awdurdod Addysg Lleol?

Cynradd: …… Uwchradd: ……

2 Pwy sydd fel arfer yn cymryd y cyrsiau hyfforddi ar Anghenion Addysgu Arbennig rydych chi'n eu darparu i lywodraethwyr?

(a) Swyddogion llywodraeth leol sydd â chyfrifoldeb arbennig dros Anghenion Addysgol Arbennig □

(b) Ymgynghorydd/wyr Anghenion Addysg Arbennig yr AALl □

(c) Cydlynwyr Anghenion Addysg Arbennig yr Ysgolion □

(ch) Darparwyr allanol □

(d) Cyfuniad o ddau neu fwy o'r uchod (Nodwch y cyfuniad, e.g. (a) + (b)) …… □

(dd) Arall (nodwch os gwelwch yn dda) □

……

……

3 **Yn 1999-2000**, a ddarparodd eich AALl Hyfforddiant Anghenion Addysgol Arbennig i lywodraethwyr? (ticiwch un blwch neu'r ddau ohonynt os yw hynny'n berthnasol)

		Cyfartaledd nifer y Llywodraethwyr a fynychodd
(a) Yn rhan o sesiwn/sesiynau hyfforddi gyda phynciau eraill	□	……
(b) Yn gyrsiau Anghenion Addysgol Arbennig ar wahân	□	……

(c) A fynychwyd unrhyw gwrs/gyrsiau'n amlwg yn well na'r lleill? DO/NADDO
Os DO, manylwch os gwelwch yn dda:

……

4 **Yn 2000-2001**, a ddarparodd eich AALl Hyfforddiant Anghenion Addysgol Arbennig i lywodraethwyr? (ticiwch un blwch neu'r ddau ohonynt os yw hynny'n berthnasol)

		Cyfartaledd nifer y Llywodraethwyr a fynychodd
(a) Yn rhan o sesiwn/sesiynau hyfforddi gyda phynciau eraill	☐	……
(b) Yn gyrsiau Anghenion Addysgol Arbennig ar wahân	☐	……

(c) A fynychwyd unrhyw gwrs/gyrsiau'n amlwg yn well na'r lleill? DO/NADDO
Os DO, manylwch os gwelwch yn dda:

……

5 **Yn Nhymor yr Hydref 2001**, a ddarparodd eich AALl Hyfforddiant Anghenion Addysgol Arbennig i lywodraethwyr? (ticiwch un blwch neu'r ddau ohonynt os yw hynny'n berthnasol)

		Cyfartaledd nifer y Llywodraethwyr a fynychodd
(a) Yn rhan o sesiwn/sesiynau hyfforddi gyda phynciau eraill	☐	……
(b) Yn gyrsiau Anghenion Addysgol Arbennig ar wahân	☐	……

(c) A fynychwyd unrhyw gwrs/gyrsiau'n amlwg yn well na'r lleill? DO/NADDO
Os DO, manylwch os gwelwch yn dda:

……

6 A ydych yn amrywio'r dyddiau a'r adegau pryd y cynhelir eich cyrsiau hyfforddi llywodraethwyr ym maes Anghenion Addysgol Arbennig?

(a) Rydym yn rhedeg cyrsiau ar wahanol ddyddiau'r wythnos YDYM/NAC YDYM

(b) Rydym yn cynnal cyrsiau ar wahanol adegau o'r dydd YDYM/NAC YDYM

7 Os atebwyd YDYM i gwestiwn 6(a), a sylwoch ar wahaniaeth mawr o ran y nifer sy'n mynychu'r cyrsiau ar wahanol ddyddiau'r wythnos? DO/NADDO

Os DO, nodwch y dydd(iau) mwyaf poblogaidd:…..……..

Yn eich barn broffesiynol chi, a allai'r ffaith fod y dydd(iau)'n boblogaidd ymwneud â'r pwnc o dan sylw yn y sesiwn hyfforddi? GALLAI/NA ALLAI

8 Os atebwyd YDYM i gwestiwn 6(a), a sylwoch ar wahaniaeth mawr o ran y nifer sy'n mynychu'r cyrsiau ar wahanol adegau o'r dydd? DO/NADDO

Os DO, nodwch yr adeg fwyaf (adegau mwyaf) poblogaidd: ……..

Yn eich barn broffesiynol chi, a allai'r ffaith fod yr adeg(au)'n boblogaidd ymwneud â'r pwnc o dan sylw yn y sesiwn hyfforddi? GALLAI/NA ALLAI

9 A ydy eich rhaglen hyfforddi llywodraethwyr ym maes Anghenion Arbennig ar gyfer 2001-2002 yn cynnwys hyfforddiant o ran darpariaethau a gofynion Deddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd: (ticiwch un blwch neu'r ddau ohonynt os yw hynny'n berthnasol)

(a) yn rhan o sesiwn(sesiynau) hyfforddi gyda phynciau eraill ☐

(b) yn sesiwn hyfforddi ar wahân ☐

10 Os nad ydych yn darparu unrhyw hyfforddiant i lywodraethwyr ynghylch Deddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd 2001 yn eich hyfforddiant i lywodraethwyr ar gyfer 2001-2, a ydych yn bwriadu cynnwys hyfforddiant o'r fath yn ystod 2002-2003: (ticiwch un blwch neu'r ddau ohonynt os yw hynny'n berthnasol)

(a) yn rhan o sesiwn(sesiynau) hyfforddi gyda phynciau eraill ☐

(b) yn sesiwn hyfforddi ar wahân ☐

11 A oes unrhyw agweddau ar hyfforddiant Anghenion Addysgol Arbennig i lywodraethwyr y teimlwch fod angen rhoi mwy o bwyslais arnynt, neu yr hoffech nodi unrhyw sylwadau yn eu cylch?

……

……

……

……

Diolch am eich cymorth yn llenwi'r holiadur hwn. A fyddech cystal â dychwelyd y ffurflen wedi'i llenwi yn yr amlen barod erbyn **15 Chwefror 2002**, at:

Steve Gullick, Cyfarwyddwr Prosiect,
Canolfan Rhagoriaeth Cymru ar gyfer Hyfforddi Llywodraethwyr ac Ymchwil,
Adran Addysg, Prifysgol Cymru Abertawe, Hendrefoelan ABERTAWE, SA2 7NB

Rhif Ffôn: 01792 518609 / 518610 E-bost: S.E.Gullick@swansea.ac.uk